**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Awst 2021

Annwyl Peredur,

Er mwyn cefnogi'r gwaith o lunio blaen-gynlluniau cyllid ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol, cytunais yn flaenorol i ysgrifennu ar yr adeg hon o'r flwyddyn i nodi amrywiaeth o ffactorau ar gyfer helpu i gynllunio cyllidebau yn y dyfodol, gan gynnwys asesiad gorau'r Llywodraeth o lefel y cyllid a fydd ar gael yn y blynyddoedd nesaf. Fel ar yr adeg hon y llynedd, mae rhagolygon y dyfodol ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru yn ansicr iawn.

Mae lefel y diffyg cyffredinol yng nghyllid cyhoeddus y DU yn parhau'n uchel iawn yn ôl safonau'r gorffennol, a hynny oherwydd effeithiau'r pandemig a'r ymateb iddo. Mae rhagolwg diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer cyllid cyhoeddus y DU, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb mis Mawrth Llywodraeth y DU, yn nodi swm o £234 biliwn ar gyfer y diffyg yn 2021-22, gan ostwng i £107 biliwn yn 2022-23, ond yn dal i fod dros £70 biliwn erbyn canol y degawd. Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod yr wybodaeth fisol ddiweddaraf am gyllid cyhoeddus yn awgrymu y gallai'r sefyllfa gyffredinol yn y flwyddyn ariannol hon fod rhywfaint yn well na'r rhagolwg a gafwyd ym mis Mawrth.

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer 2021-22 eisoes wedi gweld newidiadau sylweddol ers y Gyllideb derfynol ar ddechrau mis Mawrth, o ganlyniad i gyllid ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â COVID. Mae'r Gyllideb Atodol gyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, yn cynnwys cyllid ychwanegol o dros £1 biliwn. Nid yw'n glir a fydd rhagor o newidiadau sylweddol eleni.

Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad o wariant yn nes ymlaen eleni er mwyn llunio cynlluniau gwariant y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol bresennol. Cyn hynny, nid oes modd inni gael sail gadarn i gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Roedd cyllideb mis Mawrth Llywodraeth y DU yn cynnwys ffigurau gwariant cyffredinol ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Nid fydd cyllid COVID ar gael ar ôl y flwyddyn bresennol, ac mae'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ffigurau’n awgrymu y byddwn yn gweld gostyngiad sylweddol mewn arian parod yn ein cyllideb yn 2022-23. Mae’r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi nodi bod Llywodraeth y DU hefyd wedi torri oddeutu £15 biliwn y flwyddyn o ran gwariant adrannol craidd yn y blynyddoedd y tu hwnt i 2021-22. Yn y cyd-destun hwn, mae’n werth nodi bod Trysorlys EM wedi gofyn i adrannau Llywodraeth y DU wneud cynlluniau sy’n nodi lle y gallent wneud arbedion effeithlonrwydd erbyn 2024-25.

Nid ydym yn gwybod a fydd cyfansymiau gwario mis Mawrth yn darparu sail ar gyfer yr adolygiad o wariant a fydd yn digwydd, ond os ydynt yn gwneud hynny rydym yn debygol o weld sefyllfa gyllido gyfyng iawn, yn arbennig yn 2022-23. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru wedi amcangyfrif ei bod yn bosibl mai dim ond 2% o gynnydd a welwn yn nhermau arian parod y flwyddyn nesaf o ran cyllid ariannu craidd dydd-i-ddydd. Yn ogystal â hyn, bydd angen i Lywodraeth Cymru hefyd rheoli canlyniadau colli cyllid yr UE.

Gan droi at brisiau a chyflogau, mae rhagolwg mis Mawrth y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn dangos y datchwyddydd cynnyrch domestig gros yn gostwng 1.6% yn y flwyddyn ariannol bresennol, ac yn gostwng 0.1% yn 2022-23, cyn dychwelyd at dwf o oddeutu 2% y flwyddyn y tu hwnt i hynny. Disgwylir i enillion cyfartalog yn y DU gynyddu 2.4% yn y flwyddyn ariannol bresennol a 2.5% y flwyddyn nesaf. Nid yw’n glir a fydd Llywodraeth y DU yn parhau â’i pholisi i rewi cyflogau ar draws llawer o’r sector cyhoeddus y tu hwnt i’r flwyddyn bresennol. Os felly, bydd hynny â goblygiadau ar gyfer cyllid Llywodraeth Cymru.

Gan nad oes cynlluniau cadarn y tu hwnt i 2021-22 ar hyn o bryd, a bod ansicrwydd sylweddol ynghylch llwybr y pandemig yn y dyfodol a pha mor gyflym fydd yr adferiad economaidd, mae’r cefndir i’r paratoadau ar gyfer cyllideb nesaf Llywodraeth Cymru yn heriol iawn. Byddaf yn rhoi gwybodaeth bellach i’r Pwyllgor os daw ar gael cyn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o wariant.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government